
PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD MERCHER, 13 RHAGFYR 2017

Yn bresennol: Y Cynghorydd Beth Lawton – Cadeirydd.
Y Cynghorydd Nia Jeffreys – Is-Gadeirydd.

Y Cynghorwyr: Menna Baines, Steve Collings, Aled Evans, Evan Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Cai Larsen, Dewi Owen, Paul Rowlinson, Cemlyn Williams, a Gareth Williams.

Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Craig ab Iago – Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant (Eitem 5), a'r Cynghorydd Gareth Thomas – Aelod Cabinet Addysg (Eitem 6 a 7).

Hefyd yn bresennol: Vera Jones (Rheolwr Aelodau), Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau), Dylan Davies (Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionydd), David Healey (Undebau Athrawon), a Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru).

Eitem 4: Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymunedau), Robin Evans (Rheolwr Prosiect), a Iwan Evans (Swyddog Monitro).

Eitem 5: Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Alwyn Lloyd Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Safonau), a Ellen Williams (Arweinydd Craidd Uwchradd Gwynedd).

Eitem 5 a 6: Garem Jackson (Pennaeth Addysg).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Jason Parry, Huw Wyn Jones, a Keith Jones.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Menna Baines fuddiant personol yn eitem 7 oherwydd ei rôl ar Fwrdd Ymgynghorol Cynnal.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd y cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 26 Medi 2017, fel rhai cywir.

5. TREFNIADAU LLYWODRAETHU ARFAETHEDIG CWMNI HAMDDEN CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant a'r Pennaeth Economi a Chymunedau, yn cyflwyno trefniadau llywodraethu arfaethedig Cwmni Hamdden Cyngor Gwynedd. Gwahoddwyd aelodau i roi eu mewnbyn ar y trefniadau cyn i'r eitem fynd ger bron y Cabinet. Diolchodd yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant i'r Pwyllgor am y cyfle i drafod y trefniadau.

Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem, rhoddwyd rhagor o wybodaeth i aelodau am y materion canlynol:

- Rôl a phwrpas y Bwrdd Cyngorol.
- Dealltwriaeth o bwy fydd yn gyfrifol am benodi'r Bwrdd Rheoli.
- Cyfrifoldeb ac atebolrwydd aelodau'r bwrdd pe bai'r cwmni yn fethiant, a pha gamau sydd gan y Cyngor i ddelio â hyn – yn arbennig yr effaith ar staff y cwmni.
- Trefn penodi, rôl a chyfrifoldeb y Rheolwr Gyfarwyddwr.

Nodwyd y sylwadau canlynol am y trefniadau llywodraethu'r cwmni gan y Pwyllgor Craffu er sylw'r Aelod Cabinet a'r Cabinet;

- Fod angen i'r Bwrdd Cysgodol fod yn rhan allweddol yn y broses o benodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr.
- Y dylid ystyried os oes angen mwy na phum aelod ar y Bwrdd Rheoli gan fod cryn ofynion ar yr aelodau hynny.
- Pwysigrwydd sicrhau perthynas iach ac agored gyda'r Bwrdd Cyngorol o'i sefydlu. Bydd y Pwyllgor craffu yn dymuno eglurder pellach ynghylch sut y bydd hyn yn datblygu dros y misoedd nesaf.
- Fod angen eglurder pellach o rôl y pum cyfarwyddwr wedi iddynt eu penodi.
- Fod y datblygiad yn cynnwys cyfleoedd newydd, er enghraifft;
 - Cyfle i farchnata'r Canolfannau Hamdden yn fwy creadigol.
 - Y dylid ystyried argymhelliad i gyflwyno 'cynllun bonws' i staff sydd yn hyrwyddo'r cwmni yn egnïol.
- Y dylid hefyd sicrhau bod clybiau fel 'Dementia Go' a threfniadau llwyddiannus eraill yn parhau.

Bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu yn croesawu'r cyfle i graffu'r datblygiadau ymhellach yn unol â'r addewid.

Penderfynwyd: Cefnogi'r adroddiad i fynd i'r Cabinet.

6. EFFAITH A CHANLYNIAD YR HYN A DDARPERIR GAN GWE AR RAN AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD

Llongyfarchodd Aelod Cabinet Addysg staff GwE ar lwyddiant yr adroddiad Estyn diweddar.

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Addysg a'r Pennaeth Addysg, yn ymateb i nifer o gwestiynau a ddarparwyd gan aelodau'r pwyllgor ymlaen llawn ynglŷn ag effaith a chanlyniad y gwasanaeth a ddarperir gan GwE ar ran Awdurdod Addysg Gwynedd.

Bu i aelodau'r Pwyllgor fynegi barn bod yr adroddiad yn rhy gyffredinol ac yn disgrifio holl ystod gwaith GwE, yn hytrach nag amlygu'r gwerth am arian i Wynedd yn benodol.

Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem, rhoddwyd rhagor o wybodaeth i aelodau am y materion canlynol:

- Rhoddwyd esboniad ar natur y gwasanaeth sy'n cael ei gomisiynu gan GwE ac amlinellwyd bod dwy lefel benodol sef;
 - a. y gwasanaeth mae GwE yn ei ddarparu i'r chwe awdurdod.
 - b. cynllun busnes sydd wedi'i deilwra yn benodol i anghenion Gwynedd.
- Eglurder o'r broses o lunio'r cynlluniau busnes ar gyfer pob Sir.
- Pryderon bod gwendid wedi bod yng nghanlyniadau'r Cyfnod Sylfaen am ddwy flynedd yn olynol.
- Pryderon bod ysgol wedi ei rhoi mewn mesurau arbennig o dan y trefniant presennol rhwng yr awdurdod a GwE.
- Rôl y Swyddogion Cefnogi Gwelliant i sicrhau cefnogaeth gyson er mwyn sicrhau gwelliant cyson ar draws y Sir.

- Y berthynas rhwng yr awdurdod a GwE – a oes digon o herio yn mynd ymlaen?
- Esboniad fod arweinyddiaeth mewn ysgolion yn flaenoriaeth gan yr awdurdodau a GwE a dyna oedd sail y gynhadledd datblygu arweinyddiaeth a fu yn yr haf.
- Prinder o athrawon/penaethiaid addysg.

Mewn ymateb i'r sylw am brinder o athrawon a phenaethiaid addysg yng Ngwynedd, amlygodd y Pennaeth Addysg yr hyn mae'r awdurdod yn ei wneud i fynd i'r afael a'r broblem;

- Swyddfeydd Addysg Ardal - wedi'i datblygu i annog gweithio ar y cyd ac i sicrhau bod y gwaith gweinyddol yn effeithiol ac yn effeithlon ar draws ysgolion.
- Consortiwm Hyfforddiant – gwaith rhanbarthol sydd ar droed yn targedu penaethiaid strategol, rheolwyr safle, penaethiaid y dyfodol a dirprwy penaethiaid.

Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad.

7. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU GWASANAETHAU CEFNOGOL ADDYSG

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn cyflwyno'r chwe argymhelliad o'r ymchwiliad craffu gwasanaethau cefnogol addysg. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd i'r ymchwiliad.

Penderfynwyd: Derbyn yr argymhellion.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 y.h. a daeth i ben am 4.15 y.h.

CADEIRYDD